

CYLCH GORCHWYL CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Cyflwyniad

1. Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yn Gydbwyllgor o bob un o ddeg Awdurdod Lleol

De-Ddwyrain Cymru. Mae paragraff 10.1 o'r Cydgytundeb Gwaith yn nodi 'Bydd y Cynghorau'n ffurfio'r cydbwyllgor ("Cydbwyllgor") at ddibenion goruchwyllo a chydlynu cyflawni rhwymedigaethau'r Cynghorau mewn perthynas â'r Fargaen Ddinesig, yn ogystal â chyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor). Gelwir y Cydbwyllgor yn "Gyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd", "Cyd-gabinet" neu'n "Gabinet Rhanbarthol" (yn dibynnu ar y cyd-destun)'.

At ddibenion y cylch gorchwyl;

Mae'r Cydgytundeb Gwaith yn cyfeirio at y cytundeb (y mae modd ei ddiwygio o bryd i'w gilydd) a lofnodwyd gan CBS Blaenau Gwent, CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd, CBS Caerffili, CBS Merthyr Tudful, CC Sir Fynwy, CC Casnewydd, CBS Rhondda Cynon Taf, CBS Torfaen a Chyngor Bro Morgannwg ar 1.3.17. Yr 'Awdurdodau Penodi' yw'r partïon sy'n rhan o'r Cydgytundeb Gwaith, ac mae 'Awdurdod Gwesteio' yn golygu *** neu unrhyw awdurdod arall mae modd i'r yr Awdurdodau Penodi gytuno arno o bryd i'w gilydd.

2. Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn defnyddio adnoddau gan y deg Awdurdod Penodi ac fe'i cefnogir gan

Swyddfa Rheoli Rhaglen (PMO), swyddogion amser llawn, Bwrdd Rhaglen sy'n cynnwys Uwch Swyddogion sy'n cynrychioli pob un o'r Cynghorau partner a Chyd-gabinet sy'n cynnwys Arweinydd (neu Ddirprwy) o bob Awdurdod. Hefyd: Penodwyd ymgynghorwyr allanol cyfreithiol, technegol ac ariannol i ddarparu cyngor technegol arbenigol.

3. Cytunodd pob Cyngor i weithio gyda'i gilydd i greu Cydbwyllgor Craffu fel y nodwyd ym Mharagraff 10.19.2 o'r Cydgytundeb Gwaith; 'Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda'i gilydd i lunio a chytuno ar gylch gorchwyl, i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith, ar gyfer Cydbwyllgor Archwilio a Chydbwyllgor Craffu, gan nodi sut byddan nhw yn cael eu hadnoddau a'u cyllid'.

Aelodau'r Cydbwyllgor Craffu

4. Bydd y Cydbwyllgor Craffu yn cynnwys un Aelod anweithredol o bob Awdurdod Penodi.

5. Mae'n fater i bob Awdurdod Penodi enwebu, neu derfynu penodiad ei Aelod enwebedig sy'n rhan o'r Cydbwyllgor Craffu o bryd i'w gilydd. O bryd i'w gilydd, bydd gan bob Awdurdod Penodi hawl i benodi dirprwy ar gyfer ei gynrychiolydd sy'n Aelod o'r Cydbwyllgor Craffu, ond dim ond os yw'r Aelod mae'n dirprwyo ar ei ran yn absennol y bydd modd i'r dirprwy yma drafod a phleidleisio ar faterion.

6. Mae hyd y penodiad yn fater i bob Awdurdod Penodi.

Cworwm

7. Y cworwm sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfarfod o'r cyd-bwyllgor craffu yw o leiaf 6 o blith 10 Aelod o'r Cydbwyllgor Craffu, ac mae angen iddyn nhw fod yn bresennol ar yr adeg berthnasol.

Ethol Cadeirydd

8. Bydd y Cydbwyllgor Craffu yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd, yn flynyddol rhwng yr Awdurdodau Penodi

Rheolau Dull Gweithredu

9. Y rheolau dull gweithredu fydd rheolau'r Awdurdod Lletyol ar gyfer ei Bwyllgorau Craffu,

Ymddygiad Aelodau

10. Bydd aelodau'r Cydbwyllgor Craffu yn rhwym wrth God Ymddygiad eu Cyngor.

Datgan Buddiant

11. Rhaid i aelodau'r Cydbwyllgor Craffu ddatgan unrhyw fuddiant naill ai cyn cyfarfodydd y Cydbwyllgor Craffu neu yn ystod cyfarfodydd (ac ymadael o'r cyfarfod hwnnw os oes angen) yn unol â Chod Ymddygiad eu Cyngor neu fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Gwybodaeth Gyfrinachol a Gwybodaeth Eithriedig / Mynediad at Wybodaeth

12. Bydd rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth yr Awdurdod Lletyol yn berthnasol yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972:

Bod yn agored a thryloyw

13. Bydd holl gyfarfodydd y Cydbwyllgor Craffu ar agor i'r cyhoedd oni bai bod angen gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

14. Bydd holl agendâu, adroddiadau a chofnodion y Cydbwyllgor Craffu ar gael i'r cyhoedd, oni bai eu bod yn eithriedig neu'n gyfrinachol yn unol â'r Ddeddf uchod.

Swyddogaethau i'w gweithredu gan y Cydbwyllgor Craffu

15. Bydd y Cydbwyllgor Craffu yn gyfrifol am arfer y swyddogaethau canlynol:

- a. Cyflawni'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu ar gyfer Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (mae manylion penodol y Fargaen Ddinesig wedi'u nodi yn y Cydgytundeb Gwaith) ar ran y deg Awdurdod Lleol.
- b. Datblygu blaen-raglen waith sy'n adlewyrchu ei swyddogaethau o dan baragraff (a) uchod.
- c. Ceisio sicrwydd ac ystyried a yw Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gweithredu yn unol â'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd, y Cynllun Busnes Blynyddol, yr amserlen a/neu yn cael ei rheoli'n effeithiol.
- d. Monitro unrhyw gynnydd ym mhrosiect Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn erbyn Cynllun y Rhaglen.
- e. Gwneud unrhyw adroddiadau ac argymhellion i'r Cabinet Rhanbarthol a/neu i unrhyw un o'r Awdurdodau sy'n Penodi ac i unrhyw un o'u hadenydd gweithredol mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth sydd wedi'i dirprwyo i'r Cabinet Rhanbarthol yn unol â'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd.

Gall unrhyw aelod o Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gyfeirio unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r pwyllgor ato, ar yr amod nad yw'n fater trosedd ac anhrefn lleol fel y'i diffinnir yn adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006

Gall unrhyw aelod o unrhyw un o'r Awdurdodau Penodi gyfeirio unrhyw fater Llywodraeth Leol sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Cydbwyllgor Craffu ato, yn ddarostyngedig i'r amodau hyn. Yr amodau ar gyfer cyfeirio mater at y Cydbwyllgor Craffu gan y Pwyllgor Penodi:

- (i) Mae'r mater yn ymwneud ag un o swyddogaethau'r awdurdod ac mae'n berthnasol i swyddogaethau'r Cydbwyllgor craffu,

- (ii) Mae'n effeithio ar ardal etholiadol yr aelod neu mae'n effeithio ar unrhyw berson sy'n byw neu'n gweithio yno; a
- (iii) Nid yw'n fater trosedd ac anhrefn lleol fel y'i diffinnir yn adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.

Amodau

Wrth ystyried a ddylid cyfeirio mater at y Cydbwyllgor Craffu, dylai aelod ystyried yn gyntaf a yw'n dod o fewn cylch gorchwyl un pwyllgor trosolwg a chraffu o fewn awdurdod lleol yr aelod, ac os yw hynny'n wir dylai'r aelod godi'r mater yno.

Dim ond os yw'n dod o fewn cyfrifoldebau a chylch gorchwyl y Cydbwyllgor Craffu y dylai aelodau gyfeirio mater at Gydbwyllgor craffu, a dim ond os nad oes trefniadau craffu ar y mater yn yr awdurdod lleol y mae'r aelod yn perthyn iddo.

Cydnabyddir na fydd sefydlu Cydbwyllgor Craffu Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn eithrio hawl awdurdod lleol i gynnal ei waith craffu unigol ei hun ar unrhyw benderfyniad gan y Cabinet Rhanbarthol neu fater sy'n ymwneud a'r Fargaen Ddinesig

Hyd y Cyd-graffu

16. I bara yr un mor hir â'r Cyd-Gabinet neu orffen yn gynharach os bydd y deg awdurdod yn penderfynu dod â'r trefniadau Cydgraffu i ben.

Tynnu Allan

17. Gall unrhyw un o'r deg Awdurdod lleol dynnu'n ôl o gymryd rhan yn y trefniadau Cydgraffu ar ôl tri mis o rybudd i bob un o'r Awdurdodau eraill.

18. Rhaid i'r Cydbwyllgor Craffu, wrth gyflawni ei swyddogaethau, roi sylw i ganllawiau sy'n ymwneud ag adran 62 o'r Mesur, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgysylltu â'r cyhoedd

Troednodiadau

1. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth ar gyfer is-bwyllgorau o ystyried mai dim ond 10 aelod yw'r pwyllgor craffu a bod Rheoliadau (OS 2013/1051) yn ei gwneud yn ofynnol i Is-bwyllgor gynnwys nifer cyfartal o aelodau'r Awdurdodau Penodi.